**EOC-02-00(min)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Mawrth 2000 | |
| **Amser:** | 9.30 am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gyr |
| | Christine Chapman | Cwm Cynon |
| | Gareth Jones | Conwy |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Kirsty Williams | Aberhonddu a Maesyfed |
| | **Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor** | |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cydraddoldeb Cyfle |
| | Kevin Fitzpatrick<br>Howard John | Comisiwn Hawliau Anabledd<br>Anabledd Cymru |
| | Mashuq Ally | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | Judith Jones | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | **Swyddogion** | |

| | |
|---|---|
| Mike Harper | Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jane Hutt, Janet Ryder, Richard Edwards, Glyn Davies a Carwyn Jones.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Ysgrifennydd Parhaol**
**Papur: EOC-02-00(p.1)**

1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy fynegi ei balchder ar gael y cyfrifoldeb o gadeirio'r Pwyllgor. Croesawodd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Dr Mashuq Ally a Dr Kevin Fitzpatrick a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf fel ymgynghorwyr ffurfiol i'r Pwyllgor. Cyflwynodd hefyd Mike Harper a oedd yn ddiweddar wedi dechrau ar ei swydd fel Pennaeth yr Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus.

1.2 Agorodd y Cadeirydd yr eitem gyntaf drwy gyflwyno Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol, Jon Shortridge, a oedd yn bresennol i ymateb i nifer o bryderon ynglþn â materion yn ymwneud â chydraddoldeb o fewn y Cynulliad a godwyd gan y Pwyllgor dros y misoedd diwethaf. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol at bapur EOC-02-00(p.1) yn amlinellu gwaith yr Uned Polisi Cydraddoldeb. Roedd yn nodi cynnydd sylweddol o ran staff yn yr Uned dros y misoedd diwethaf a byddai ymagwedd broactif yr Uned tuag at ei Harchwiliad Cydraddoldeb o Is-adrannau'r Cynulliad yn arwain at gynllun gweithredu i'r Cynulliad cyfan â'r nod o osod cydraddoldeb yn y prif ffrwd. Cydnabu y byddai gan y Pwyllgor ran bwysig iawn i'w chwarae wrth oruchwylio'r cynllun a chytuno ar ei gynnwys.

1.3 Byddai Cynllun Gweithredu'r Uned ei hun yn cael ei gostio a'i flaenoriaethu'n llawn unwaith y byddai canlyniadau'r Archwiliad Cydraddoldeb yn hysbys. Sicrhaodd Mr Shortridge y Pwyllgor y byddai'r canlyniadau ar gael ar gyfer eu cyfarfod nesaf ar 13 Ebrill. Fe'u gohiriwyd am tua dau fis o ganlyniad i ddiffyg gwerthfawrogiad o'r baich gwaith sylweddol a oedd ynghlwm wrth eu cynhyrchu ond roedd hyn bellach o dan reolaeth.

1.4 Roedd arian ar gael i ariannu staff i ymdrin â gwaith yn ymwneud â chydraddoldeb yn y Cynulliad, ac roedd wedi dal arian yn ôl yn bwrpasol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r Pwyllgor yn well. Fodd bynnag, byddai'n anghywir ystyried gwaith yr Uned yn nhermau cylch gorchwyl y Pwyllgor yn unig gan ei bod yn gwneud swm sylweddol o waith ar faterion eraill. Roedd y fenter bresennol Gwell Llywodraeth yn ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac roedd gan yr Is-adran Rheoli Personél hefyd ran bwysig i'w chwarae wrth ledaenu cydraddoldeb drwy bolisïau ac arferion staff y Cynulliad.

1.5 O ran hyfforddi uwch reolwyr yn y Cynulliad, nododd Mr Shortridge fod pob uwch reolwr wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant cydraddoldeb tua phum mlynedd yn ôl ac roedd o'r farn y byddai'n briodol darparu hyfforddiant gloywi nawr. Mewn ymateb i gwestiwn arall, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd staff a oedd yn gweithio yn rhan amser ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb yn gweithio yn rhan amser ar faterion eraill hefyd, ond eu bod yn gweithio oriau rhan amser. Cydnabu mai secondiaid oedd rhai o aelodau staff yr Uned yr oedd eu presenoldeb wedi'i gyfyngu o ran amser ond y gallai eraill gymryd eu lle pan ddaw eu swyddi i ben. Roedd eu harbenigedd yn bwysig iawn wrth ddatblygu polisïau a phrosesau. Cydnabu'r Cadeirydd y cyfraniad cadarnhaol y gallai secondiaid ei wneud a nododd ei bod yn gobeithio y gallai un o'r secondiaid weithredu ar Adroddiad MacPherson.

1.6 Teimlai'r aelodau fod papur EOC-02-00(p.6) ar gyflog a'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio â chontractau yn y Cynulliad yn ddefnyddiol iawn ond nad oedd wedi ymdrin â materion penodol. Nid oedd unrhyw awgrym o'r ganran o staff oedd yn ferched, yn ddu ac yn lleiafrifoedd ethnig neu'n anabl o fewn y gwahanol raddau o staff. Nid oedd unrhyw wybodaeth ychwaith am sut roedd cydymffurfiad is-gontractwyr â'u gofynion statudol yn cael ei fonitro. Cynigiodd Mr Shortridge ddarparu gwybodaeth ar y materion hyn yn ogystal â thargedau'r Cynulliad ar gyfer cynyddu amrywiaeth. Mewn ymateb i gwestiwn o ran sut y caiff aelodau o staff eu hasesu ar gyfer eu gwerthusiad a'u dyfarniad cyflog perfformiad blynyddol, hysbysodd y Pwyllgor y byddai safonau marcio yn cael eu canoli'n ehangach eleni. Cytunodd i drefnu sesiwn briffio ar gyfer y Pwyllgor ar y materion allweddol yn gysylltiedig â'r fframwaith asesu. Cynigiodd y Cadeirydd y dylai ymgynghorwyr cydraddoldeb hefyd gymryd rhan yn y sesiwn hon.

1.7 Hysbysodd yr Ysgrifennydd Parhaol y Pwyllgor ei fod yn bersonol yn gwneud y cwbl o fewn ei allu i gefnogi'r Her Arweinyddiaeth. Byddai Gwell Llywodraeth yn rhannol yn ymgorffori'r nodau hyn i holl bolisïau ac arferion y Cynulliad. Fodd bynnag, o gofio'r pryderon am niferoedd cynyddol o staff du a lleiafrifoedd ethnig, roedd y Cynulliad yn cynnal ffair swyddi wedi'i hanelu at y cymunedau hyn yn unig ar 24 Mawrth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod cyfle i ddeall natur swyddi o fewn y Cynulliad a'r sefydliad ei hun. Ar 21 Mawrth cyfarfu ag uwch aelodau'r cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig i drafod pryderon nad oedd y Cynulliad yn gwneud digon i gyflogi aelodau o'r cymunedau hyn neu i ystyried eu pryderon wrth lunio polisïau.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Ymchwiliad Stephen Lawrence**
**Papurau: EOC-02-00(p.2), EOC-02-00(p.3) ac EOC-02-00(p.4)**

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon ar argymhellion addysg Adroddiad MacPherson ar Ymchwiliad Stephen Lawrence. Bu'r mater yn fater parhaus yn y Pwyllgor ac roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn hanfodol i'r Cynulliad ddysgu'r gwersi a chymryd camau i ymdrin â'r problemau a amlygwyd gan yr argymhellion. Diolchodd i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Phlant, Rosemary Butler, am fynychu'r Pwyllgor i drafod y materion dan sylw ac fe'i gwahoddwyd i gyflwyno ei hun a'i chydweithwyr.

2.2 Diolchodd Mrs Butler i'r Cadeirydd am y cyfle i ddangos ei hymrwymiad hi ei hun a'r Adran Addysg i gydraddoldeb cyfle i'r Pwyllgor. Cydnabu fod addysg wrth wraidd ymdrechion y Cynulliad i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb yng Nghymru. Adlewyrchwyd ymrwymiad y Cynulliad yn ei ymateb i Adroddiad MacPherson gan gynnwys datblygu mentrau a oedd yn benodol Gymreig. Ni chyhoeddwyd yr Adroddiad hyd nes yr oedd y broses o ddatblygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i Gymru yn mynd rhagddi ond roedd agweddau a gwerthoedd deall amrywiaeth diwylliannol ac atal aflonyddwch a bwlio wedi'u hymgorffori'n gadarn yng ngwaith ACCAC o'r cychwyn cyntaf. Pwysleisiodd yr ymgynghoriad helaeth a wnaed gan ACCAC ar y Cwricwlwm a'r croeso eang a dderbyniodd, nid yn unig gan bob plaid o fewn y Cynulliad, ond hefyd o blith ymarferwyr, ysgolion, athrawon ac awdurdodau addysg lleol a oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau y'i gweithredwyd yn effeithiol. Yna cyflwynodd ei chydweithwyr a fyddai'n cynorthwyo wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor: John Howells, Pennaeth Is-adran Perfformiad Ysgolion y Cynulliad; Brian Connolly, Cadeirydd ACCAC; John Valentine Williams, Prif Weithredwr ACCAC; Susan Lewis, Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi, Estyn; ac, Adela Baird, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn.

2.3 Amlinellodd Brian Connolly strwythur y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) lle yr ymgorfforwyd yr egwyddorion cydraddoldeb. Roedd gan bob disgybl rhwng 5 a 16 oed hawl i ABCh. Roedd ystyriaeth i argymhellion MacPherson eisoes wedi'i hadeiladu i'r Fframwaith a oedd yn nodi'r agweddau, y gwerthoedd, y sgiliau a'r wybodaeth y byddem am i ddisgyblion eu mabwysiadu. Roedd y Fframwaith yn cynnwys cyfeiriadau at gydraddoldeb yn ei synnwyr ehangaf ac roedd ACCAC wrthi'n cynhyrchu arweiniad pellach mewn meysydd penodol. Byddai cydraddoldeb yn cael ei osod yn y brif ffrwd drwy'r cwricwlwm oherwydd, yn wahanol i Loegr, mae'r Fframwaith ABCh yng Nghymru yn cynnwys gofynion cyffredin a fydd yn treiddio i'r cwricwlwm cyfan. Roedd ACCAC wedi amlinellu rhai cyfleoedd addysgu amlwg er mwyn nodi'r cysyniadau a gynhwysir yn y Fframwaith ond anogir athrawon hefyd i ddatblygu eu cyfleoedd eu hunain.

2.4 Nid oedd y Fframwaith yn orfodol ond, gan ei fod yn seiliedig ar arfer da presennol, roedd ysgolion uwchradd eisoes yn dilyn llawer o'r hyn a gwmpesir ganddo. Byddai ysgolion cynradd yn ei chael yn anos ei fabwysiadu ar unwaith a dyma oedd un o'r rhesymau pam fod y Cynulliad wedi derbyn cyngor ACCAC y dylid cyflwyno'r Fframwaith ar sail anstatudol o fis Medi 2000 (er y rhagwelwyd y byddai'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd wedi sefydlu'r Fframwaith erbyn diwedd y cyfnod hwnnw). Byddai arweiniad ategol o gymorth yn y broses hon.

2.5 Hysbysodd John Valentine Williams y Pwyllgor fod ACCAC wedi wynebu her fawr gan yr undebau athrawon wrth adolygu'r Cwricwlwm a datblygu'r Fframwaith. Teimlai llawer ohonynt fod y Cwricwlwm Cenedlaethol eisoes yn or-benodedig ac nad oedd digon o gyfleoedd i ddarparu ar gyfer anghenion penodol ysgolion a disgyblion unigol. Roedd angen barnu'n ofalus ymhle y gallai ysgolion elwa ar arweiniad ategol gan y byddai gormod ohono yn golygu mynd ar draul hyblygrwydd. Enghraifft o arweiniad ategol oedd yr arweiniad ABCh sy'n

cynnwys astudiaeth achos ar ymwybyddiaeth amlddiwylliannol.

2.6 Nododd Susan Lewis ei bod yn ymwybodol o'r angen i fonitro traddodiadau ac arferion yn rheolaidd gan ei bod yn rheolwraig ar sefydliad mawr yn ogystal ag yn Arolygydd. Fodd bynnag, fel Prif Arolygydd roedd ganddi'r gallu i ddylanwadu ar bolisi ac arfer yn genedlaethol. Yn ddiweddar penodwyd Adela Baird yr oedd ganddi ddiddordeb penodol mewn materion lleiafrifoedd ethnig, gan ei bod yn ymwneud â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, Hiliaeth mewn Addysg a grwpiau Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL). Y nod oedd cyflawni cydraddoldeb ethnig, ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol ledled Cymru ac roedd y Fframwaith ABCh yn darparu cyfle i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi hwn. Roedd gan gydraddoldeb hiliol a chydraddoldeb yn gyffredinol broffil uchel eisoes yng ngwaith Estyn. Roedd materion yn ymwneud â hil, amlddiwylliannau ac EAL yn rhan o adroddiadau arolygiadau Estyn. Roedd Estyn hefyd wedi ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) am drefniadau ar gyfer recriwtio staff a hyfforddiant arolygu i arolygwyr lleyg.

2.7 Nododd Adela Baird fod Estyn wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Mai 1999 mewn ymateb i adroddiad MacPherson. Roedd hyn wedi egluro ymroddiad Estyn i gydraddoldeb. Roedd o leiaf 30 o gyfeiriadau at gyfle cyfartal yn yr arweiniad i arolygwyr ac roedd disgwyl iddynt ystyried y safbwyntiau hyn wrth gynnal arolygiadau. Roeddent hefyd yn derbyn hyfforddiant penodol mewn codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn mewn ysgolion. Byddai arweiniad ar y ddarpariaeth ar gyfer plant nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith gyntaf yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Cynigiodd y dylid darparu drafft o'r adroddiad a newyddlen er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Ychwanegodd Ms Lewis, drwy ddatblygu strategaethau da a mesurau priodol, ei bod yn hyderus bod arolygwyr annibynnol mewn sefyllfa well i nodi materion cydraddoldeb mewn ysgolion.

2.8 Mewn ymateb i'r sylwadau agoriadol hyn, nododd y Cadeirydd fod y Fframwaith yn dda iawn ynddo'i hun ond fod ei gyflwyno yn hanfodol. Byddai'r Pwyllgor yn hoffi i amserlen realistig gael ei sefydlu. Byddai hyfforddiant i athrawon yn hanfodol. Tybiai a ymgynghorwyd â'r CRE am y Fframwaith a hefyd a allai fod gan y Pwyllgor fewnbwn. Nododd Mrs Butler y cytunwyd ar y Cwricwlwm diwygiedig a'r Fframwaith ABCh yn y Sesiwn Lawn ar 19 Ionawr ac na fu'n ymwybodol fod gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ddiddordeb ynddo ar y pryd. Byddai hyfforddiant i athrawon yn cael ei ystyried yn ystod y ddeufis nesaf a byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ymhen amser. Roedd ACCAC wedi ymgynghori'n helaeth â'r CRE a byddai'n ymchwilio pe godwyd unrhyw faterion nad ymdriniwyd â hwy o bosibl. Fe'i hysbyswyd y byddai rhywfaint o ddata nas cadwyd ar hyn o bryd yn bwysig yng nghyd-destun argymhellion MacPherson. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar gyflawniadau plant du a lleiafrifoedd ethnig a byddai'n anelu at sicrhau y casglwyd hyn yn y dyfodol.

2.9 Mewn ymateb i'r cwestiwn a fyddai unrhyw ysgolion yng Nghymru yn dod o dan ddiffiniad MacPherson o hiliaeth sefydliadol, nododd Mrs Butler nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ysgol er ei bod yn ymwybodol o achosion unigol o aflonyddwch. Pan ddywedwyd y gallai hiliaeth sefydliadol ddeillio o hepgoriad (e.e. peidio â chynnwys gwybodaeth am y fasnach

caethweision yn y cwricwlwm hanes), nododd Mr Connolly fod ACCAC yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith y cwricwlwm cyffredinol ac o fewn hynny mai'r athrawon unigol oedd yn penderfynu pa bynciau penodol i'w cwmpasu a sut i'w haddysgu. Hysbysodd John Howells y Pwyllgor fod yr Ysgrifennydd Cynulliad wedi gofyn i ACCAC edrych ar gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i amlygu hil a materion eraill. O ganlyniad i hyn byddai mwy o arweiniad ar gael i athrawon.

2.10 Gofynnwyd i Estyn sut roeddent yn ymdrin â materion yn ymwneud â hil mewn ysgolion gwyn-i-gyd. Ymatebodd Susan Lewis fod gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd bolisïau ysgrifenedig ond nad oedd gan lawer ohonynt weithdrefnau ymarferol mewn grym ar gyfer ymdrin â materion yn ymwneud â hiliaeth. Bu Cylchlythyr 3/99 y Cynulliad ar *Pupil Support and Social Inclusion* yn ddefnyddiol wrth ymdrin â hyn a byddai cyflwyno'r Fframwaith ABCh ym mis Medi yn sicrhau bod i bob mater hiliol broffil uwch. Fodd bynnag, cydnabu Ms Lewis ar hyn o bryd yn aml na chyfeiriwyd llawer, os o gwbl, at amrywiaeth diwylliannol neu leiafrifoedd ethnig yn adroddiadau arolygiadau ar ysgolion heb lawer o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig neu ddim o gwbl.

2.11 Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd nad ôl-feddwl fyddai ABCh yn y cwricwlwm ac na fyddai materion lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hanwybyddu fel materion amherthnasol mewn ysgolion gwyn-i-gyd. Nododd Mr Williams er nad oedd ACCAC yn ymgymryd â hyfforddi athrawon ei hun, ei nod oedd sicrhau bod ei arweiniad yn seiliedig ar arfer gorau ac y byddai'n berthnasol ac yn briodol yn yr ystafell ddosbarth. Ymgynghorwyd â'r CRE ar yr holl ddeunydd perthnasol. Byddai pob aelod o staff ACCAC yn derbyn hyfforddiant mewn materion cydraddoldeb.

2.12 Cyflwynwyd sylw mae diwylliant ysgolion allai fod ar fai yn hytrach na'r Fframwaith ei hun. Hwyrach nad oedd ysgol yn ymwybodol o broblemau hiliaeth ac aflonyddwch. Teimlwyd fod hyfforddi athrawon a swyddogaeth Estyn yn hanfodol o ran newid diwylliannau. Gallai adroddiadau Estyn roi proffil uwch i gyfle cyfartal er mwyn creu a gwella ymwybyddiaeth o'r materion mewn ysgolion. Hefyd ni ddylid anghofio pwysigrwydd hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol.

2.13 Nododd Susan Lewis fod y Prif Ysgrifennydd wedi gofyn i Estyn amlygu materion ABCh yn ei adroddiadau dros y flwyddyn nesaf. Mae arolygwyr cofrestredig yn darllen pob adroddiad a gynhyrchir yn eu meysydd, yn ogystal â sylwadau gan ysgolion ar y broses arolygu, er mwyn sicrhau safonau cyson ac i fonitro'r materion a godir. Roedd hyn yn darparu llawer iawn o adborth a byddai'n ddefnyddiol wrth godi pwysigrwydd materion ABCh. Roedd hefyd wedi gofyn am gyngor y CRE wrth annog ceisiadau gan aelodau cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig i ddod yn arolygwyr lleyg fel y gallai timau arolygu gynrychioli poblogaeth Cymru yn well. Byddai cwrs i arolygwyr lleyg yn cael ei drefnu yn ddiweddarach eleni.

2.14 Nododd y Cadeirydd ei bod yn falch iawn â threfn y drafodaeth a gwahoddodd yr

ymgynghorwyr cydraddoldeb i gyflwyno sylwadau ar unrhyw faterion i'w hystyried mewn trafodaethau yn y dyfodol. Teimlai Kevin Fitzpatrick, hyd yn oed os oedd ansicrwydd ynglþn â hiliaeth sefydliadol, bod yna 'anableddwch' sefydliadol yn bendant. Roedd hyfforddiant yn hanfodol i drechu'r ddwy broblem gan na allwch fynd i'r afael â materion heb wybod beth y dylech edrych amdano. Teimlai hefyd na fyddai cydraddoldeb gwirioneddol tra bod addysg i'r rheini ag anghenion arbennig yn cael ei darparu ar wahân. Amlygodd Kate Bennett hefyd y potensial i blant anabl gael eu gosod ar yr ymylon a'u trin yn nawddoglyd; a'r mater o anghydraddoldeb rhyw wrth ddewis pynciau a disgwyliadau isel ymhlith merched sy'n arwain at anghydraddoldebau yn ddiweddarach mewn bywyd. Teimlai hefyd fod angen mynd i'r afael â thangynrychiolaeth merched, lleiafrifoedd ethnig neu bobl anabl mewn uwch swyddi mewn ysgolion.

2.15 Teimlai Judith Jones y dylid archwilio'r materion ynglþn â hiliaeth sefydliadol ymhellach ac nad oedd y Fframwaith ABCh yn gwneud digon i gynhyrchu canlyniad cadarnhaol i bob disgybl. Nododd y gallai'r Cynulliad fod wedi ystyried y materion a godwyd gan yr Ymchwiliad Lawrence yn llawer cynt. Roedd yn bwysig sicrhau nad oedd safbwyntiau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu rhoi i'r naill ochr. Cytunodd y Cadeirydd ond teimlai fod gwersi gwerthfawr yn cael eu dysgu yn gynnar ym mywyd y Cynulliad ac y gellid ystyried yr ymagwedd hon yng ngwaith pwyllgorau eraill. Nododd Mrs Butler y byddai'n ymchwilio i'r sylwadau a wnaed.

2.16 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranogwyr am eu sylwadau. Cynigiodd gyfarfod pellach o'r grp Stephen Lawrence i benderfynu ar y ffordd ymlaen yng ngoleuni'r trafodaethau hyn. Cadarnhaodd y dylid cynnwys yr ymgynghorwyr yn y grp a bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i sefydlu gweithgor o swyddogion i ystyried y ffordd orau i ddatblygu'r argymhellion o ran addysg. Cynigiodd hefyd y byddai adroddiad MacPherson yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Archwiliad Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol**
**Eitem ar lafar**

3.1 Gan fod yr eitem hon eisoes wedi cael ei hystyried o dan eitem 1 ar yr agenda, cynigiodd y Cadeirydd nad oedd angen ei chwmpasu eto. Rhoddwyd sicrwydd eisoes y byddai'r adroddiad yn barod erbyn cyfarfod y Pwyllgor ar 13 Ebrill.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Eitem ar lafar**

4.1 Amlinellodd y Cadeirydd ei barn am raglen waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol. Cynigiodd y dylid creu grp bach yn cynnwys hi ei hun, Helen Mary Jones, David Melding a Kirsty Williams a chynrychiolwyr y sefydliadau cydraddoldeb er mwyn ystyried y cylch gorchwyl ar gyfer gwaith y Pwyllgor ar benodiadau cyhoeddus. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn archwilio polisïau

cydraddoldeb cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac y gallai’r Pwyllgor hefyd ystyried eu hymagwedd tuag at y dasg hon. Byddai’r meysydd allweddol hyn o waith y Pwyllgor yn dod yn eitemau sefydlog ar yr agenda, fel y byddai argymhellion MacPherson a’r Archwiliad Cydraddoldeb/strategaeth gosod yn y prif ffrwd. Awgrymodd yr aelodau y byddai hefyd yn ddefnyddiol monitro gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad ac i aelodau’r Pwyllgor ddatblygu eu hymrwymiad i waith cydraddoldeb ar eu pwyllgorau pwnc.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i Howard John am y wybodaeth a ddarparwyd ganddo i Aelodau ar Adeilad newydd y Cynulliad. Roedd hyn wedi amlygu pryderon am y deunyddiau a fyddai’n cael eu defnyddio wrth ei adeiladu yn ogystal â materion hygyrchedd. Hyd yn oed pe penderfynwyd aros yn yr adeilad presennol, byddai’n rhaid ei addasu a’i archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â’r holl ofynion. Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd parthed y materion hyn. Wrth drafod, mynegodd yr Aelodau bryderon y cynhaliwyd amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau’r Cynulliad mewn lleoliadau nad oeddent yn hygyrch ledled Cymru. Cynigiodd Howard John ddarparu gwybodaeth i Glercod y Pwyllgorau ac eraill i’w defnyddio wrth benderfynu ar leoliadau. Diolchodd y Cadeirydd iddo a chofnododd ei diolch am ei waith ar y Pwyllgor hyd yn hyn gan y byddai’r Comisiynydd Hawliau Anabledd, Kevin Fitzpatrick bellach yn cymryd ei le fel ymgynghorydd sefydlog.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-01-00(min)**

5.1 Cytunodd yr aelodau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

5.2 Codwyd y materion canlynol:

- teimlai’r aelodau fod gwersi i’r Cynulliad eu dysgu o ganslo’r Gynghrair Amrywiaeth Diwylliannol Byd-eang
- ni ddarparwyr gwybodaeth am gynrychiolaeth y Cynulliad yn y digwyddiad Beijing Plus Five hyd yn hyn
- roedd sawl ymateb i holiadur cydraddoldeb Aelodau’r Cynulliad yn dal heb eu dychwelyd
- cafwyd ymholiad gan yr aelodau o ran amseru hyfforddiant cyfle cyfartal i Aelodau’r Cynulliad sy’n ymwneud â phaneli penodiadau cyhoeddus. Disgwyliwyd y byddai’n cael ei gynnal cyn gwyliau’r Pasg.
- roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn fater a oedd yn peri pryder a byddai’n cael ei ystyried gan y Cadeirydd.

5.3 Nododd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 13 Ebrill ac y byddai’n cynnwys sgerbwd o adroddiad blynyddol cyntaf y Pwyllgor. Ymhlith eitemau eraill ar yr agenda byddai’r Comisiwn Hawliau Anabledd; a phenodiadau cyhoeddus.

5.4 Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.

**PWYNTIAU GWEITHREDU YN DEILLIO O EOC-02-00, 23 MAWRTH 2000**

| **Eitem ar yr agenda** | **Cam gweithredu** |
|---|---|
| **1- Ysgrifennydd Parhaol** | Cynhyrchu rhaglen waith wedi'i chostio a'i blaenoriaethu i'r Uned Cydraddoldeb yn dilyn ystyried canlyniadau'r archwiliad cydraddoldeb |
| | Darparu gwybodaeth ar broses werthuso a chyflog ar sail perfformiad aelodau staff y Cynulliad a threfnu sesiwn briffio i Aelodau'r Pwyllgor |
| | Darparu gwybodaeth ar hyfforddiant cydraddoldeb i uwch staff y Cynulliad |
| | Darparu gwybodaeth ar fonitro cydymffurfiad contractau gan is-gontractwyr y Cynulliad |
| | Dosbarthu gwybodaeth ar dargedau Amrywiaeth y Cynulliad i Aelodau'r Pwyllgor |
| | Darparu ystadegau ar ryw, anabledd a dadansoddiad rhyw o staff y Cynulliad ymhob band gradd |
| **2- Ymchwiliad Stephen Lawrence** | Dosbarthu drafft o'r adroddiad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) a newyddlen gan ESTYN i Aelodau'r Pwyllgor |
| | Cadeirydd i ysgrifennu i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Phlant parthed sefydlu gweithgor o swyddogion i ystyried gweithredu argymhellion adroddiad MacPherson |
| **3 – Archwiliad Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol** | Llunio amodau gorchwyl drafft i is-grwp y Pwyllgor ar benodiadau cyhoeddus |
| | Ymgynghori â Phwyllgorau Pwnc ar drafodaethau yn ymwneud â materion cydraddoldeb |

| | |
|---|---|
| **4 – Adroddiad y Cadeirydd** | Cadeirydd i ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd par mynediad i'r anabl i adeilad newydd y Cynulliad |
| | Anabledd Cymru i ddarparu rhestrau gwirio o leoliadau addas er gwybodaeth i bob un o Glercod y Pwyllgorau |
| | Comisiwn Hawliau Anabledd i ddarparu gwybodaeth ar ei weithrediadau a'i brotocol drafft gydag Anabledd Cymru |
| | Cadeirydd i ysgrifennu at Aelodau'r Pwyllgor par presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
| | Cadeirydd i siarad â'r Rheolwr Busnes par amseru cyfarfodydd y Pwyllgor |
| | Darparu cyngor ar amseru hyfforddiant i Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus |
| | Darparu cyngor ar gynrychiolaeth y Cynulliad yn y digwyddiad Beijing plus 5 |